

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2017

Enw'r Elusen: Cymdeithas Côr Meibion Caerfyrddin

Rhif cofrestredig: 259482

Cyfeiriad: Cyfeiriad yr Ysgrifennydd (Tŷ Hir, Picton Court, Caerfyrddin SA31 3DQ)

Ymddiriedolwyr:

Dewi Jones (Cadeirydd)

Wyn Evans (Is- Gadeirydd)

Dylan Jones (Trysorydd)

Huw Michael (Ysgrifennydd)

Dogfen Rheolaeth: Y Cyfansoddiad a fabwysiadwyd ar 22/08/2017

Amcanion:

Amcanion y Côr yw hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am ganu corawl ymhlith y cyhoedd, a dysgu a pherfformio darnau corawl yn gyhoeddus, tra'n cynorthwyo achosion elusennol.

Gweithgareddau a Chyflawniadau 2017

Rheolaeth

O dan arweiniad yr Ysgrifennydd, cynhaliwyd adolygiad o'r Cyfansoddiad ar ddechrau'r flwyddyn gyda'r bwriad o 1) diweddarau y cyfansoddiad a 2) ei wneud yn fwy addas at ofynion côr sydd dipyn yn llai o ran nifer nag yr oedd.

Ychwanegwyd at yr "Amcanion" i gynnwys "cynorthwyo achosion elusennol eraill".

Derbyniwyd y Cyfansoddiad newydd yn unfrydol mewn Cyfarfod Arbenning o'r Côr ym mis Awst, ac yn dilyn hyn, fe'i anfonwyd at y Comisiwn Elusennau.

Swyddogion.

Cymerodd Dewi Jones (B1) (y cyn is-Gadeirydd) drosodd wrth Wyn Evans (B2) fel Cadeirydd y côr yn ôl yr arfer yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ddiwedd mis Chwefror. Ymddiswyddodd Clive Pugh (B2) fel Ysgrifennydd ar ôl rhoi 4 blynedd o wasanaeth clodwiw, ac etholwyd Huw Michael yn Ysgrifennydd yn ei le.

Derbyniodd Wyn Evans y gwahoddiad i fod yn Is-Gadeirydd unwaith eto, gan nad oedd neb arall wedi ei enwebi.

Aelodaeth

Cynyddwyd y tâl aelodaeth o £90 y flwyddyn i £120 y flwyddyn ar ddechrau 2017 (ar ôl codi o £50 ar ddiwedd 2015) er mwyn sicrhau sefyllfa ariannol mwy derbyniol i ateb costau blynyddol y côr. Fe gollwyd nifer o aelodau yn ystod y flwyddyn am wahanol resymau. Gadawodd yr aelodau canlynol: Alex Henderson (B2), Philip Johnes (B2), Graham Vaughan (B1), Vince James (B1), Len Blakemore (T1), Ieuan Philips (B1), Vince Harris (T1). Fe wnaeth rhai eraill ymuno â'r côr yn ystod y flwyddyn (Tim Rees (B1), Andrew Thomas (T2), Alun Hughes (T2), a Kevin Thomas (T2). Serch hynny, dim ond Kevin oedd yn dal i fod gyda ni erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn ychwanegol at hyn, roedd nifer o aelodau eraill yn absennol am y rhan fwyaf o'r flwyddyn am rhesymau amrywiol (personol, teuluol, iechyd). Gobeithiwn eu gweld nôl gyda ni yn 2018.

Er i ni hysbysebu am aelodau newydd yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y Carmarthen Journal dros nifer o wythnosau, aflwyddiannus bu hyn ar y cyfan, a mae'r nifer yn y côr ar ddiwedd 2017 yn llai nag oedd ar ddechrau'r flwyddyn (33 aelod cyson).

Presenoldeb

Tua 26 oedd nifer aelodau'r côr oedd yn bresennol yn y practis wythnosol yn weddol gyson. O ran y nifer yn y perfformiadau, roedd rhwng 20 a 26 yn bresennol fel arfer. Roedd 29 o gantorion ar y llwyfan ar gyfer y Gyngerdd Flynyddol ar 18fed o Dachwedd.

Cyngherddau

Uchafbwynt y flwyddyn oedd Cyngerdd y Côr yng Nghapel Priordy ar y 18fed o Dachwedd. Cyfranodd yr unawdydd gwâdd, Osian Wyn Bowen (Tenor), Côr Hŷn Ysgol Bro Myrddin, y cyfeilydd gwâdd, Meirion Wynn Jones, a'r offerynwyr ifanc, Hannah and Nick Crowdy, oll at lwyddiant y noswaith. Yn ôl yr adborth a dderbyniwyd gan bobol yn y gynulleidfa, mwynheuodd pawb y gyngerdd. Gwnaethpwyd tua £3000 o elw. Diolchwn hefyd i Mr David Jones (B2) am ei haelioni yn cyfrannu £500 tuag at gostau'r artistiaid. Yr unig siom oedd na lwyddon ni i wethu mwy o docynnau (llai na 200)

Cynhaliwyd cyngherddau eraill yn ystod y flwyddyn hefyd: Neuadd Llannewydd ym mis Mawrth; Army Fest ym Mhenbre ym mis Awst, Eglwys Llanllwch ym mis Medi, a chyngerdd Tenovus yn Eglwys Crist ym mis Rhagfyr.

Hefyd, cymerwyd rhan yn Moliand y Maes yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn Llanellwedd ym mis Gorffennaf ynghyd â Chôr Llanddarog, Côr Meibion Llanelli a Chôr Meibion HenDyGwyn trwy wahoddiad Mr Brian Jones, Castell Howell a oedd yn Llywydd y sioe yn 2017.

Perfformiodd y côr yn ogystal yn y digwyddiadau canlynol: Cinio Cymdeithas Efeillio Caerfyrddin- Lesneven yng Nghlwb y Cwins; Cymanfa Ganu Capel Tŷ Hen, Alma, Meidrim; a chinio Cymdeithas Holstein yng Ngwesty'r Llwyn lorwg ym mis Medi.

Priodasau

Trwy ganu mewn 5 priodas (un gwasanaeth adnewyddu llwon) yn ystod y flwyddyn, codwyd arian sylweddol ar gyfer y côr. Cafodd ein perfformiadau dderbyniad da yn y priodasau. Mewn un priodas ym mis Awst, dim ond 13 o gantorion oedd yn bresennol, ac o'r herwydd roion ni ad-daliad o 33% i adlewyrchu hyn.

Angladdau

Canodd y côr yng ngwasanaeth goffa Mrs Rosemary Jones, Trebersed, diweddar wraig David Jones (B2), ym mis Chwefror. Roedd safon uchel y canu y diwrnod hwnnw yn gweddu i'r achlysur, ac roedd 31 o gantorion yn bresennol.

Fe ganon ni hefyd yn dilyn angladd Mr David Lewis yng Nghlwb y Cwins ym mis Mawrth, ac yng ngwasanaeth angladd Mrs Tracey Butcher yn Eglwys San Pedr ddiwedd Medi (Tracey oedd merch Huw Williams (B2)).

Elusennau

Canodd y côr yn M&S ddwywaith i godi arian dros elusennau dewisiedig M&S: £300 i elusen cancr plant (LATCH) ym mis Mawrth, a £130 i Hospis Skanda Vale, Rhos, Llangeler ym mis Rhagfyr. Yn ogystal, cyfrannodd y côr £50 i Uned Oncoleg, Ysbyty Glangwili ym mis Rhagfyr yn dilyn Plygain Merched y Wawr oherwydd bod y côr wedi ffael cymryd rhan o achos tywydd eira.

Repertoire

Ychwanegwyd tri darn newydd i repertoire y côr yn 2017: Yn Y Man, Y Darlun a Tell My Father, i'w cynnwys yn ein rhaglen ar gyfer y Gyngerdd ym mis Tachwedd. Mae repertoire y côr erbyn hyn wedi ei restru ar wefan y côr.

Arweinydd a Chyfeilyddes

Dymuna'r Ymddiriedolwyr fynegi eu gwerthfawrogiad am wasanaeth Mr Wyn Maskell (erbyn hyn yn "Barchedig") a Ms Heather Williams. Rydyn yn ffodus iawn i'w cael.

